# Deiseb Heddwch Menywod Cymru

## Gweithgareddau Rhagarweiniol

Mae stori Deiseb Heddwch Menywod Cymru yn stori ryfeddol ac ysbrydoledig. Fodd bynnag, mae'n gofyn i ddysgwyr ddychmygu sut roedd bywyd mewn cyfnod gwahanol iawn ac mae'n cynnwys materion cymhleth fel deall beth yw heddwch ar wahanol lefelau a sut y gall pobl gyffredin greu newid.

Nod y gweithgareddau yn yr adran hon yw cefnogi dysgwyr i feddwl am rai o'r materion hyn a'u profi ac ennill gwell ddealltwriaeth o'r cyd-destun y digwyddodd Deiseb Heddwch y Menywod ynddo.



WCIA

Academi Heddwch Cymru

Gwnaed yn bosibl gan Cronfa Treftadaeth
Made possible with Heritage Fund

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gweithgaredd 1
## Beth mae Heddwch yn ei olygu i chi?

Gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn grwpiau bach gyda darnau mawr o bapur, post-its, peniau a phensiliau. Dywedwch wrthynt eu bod yn mynd i archwilio beth mae heddwch yn ei olygu iddyn nhw. Gofynnwch iddyn nhw bortreadu hyn ym mha ffordd bynnag maen nhw eisiau – e.e. trwy ddelweddau neu eiriau. Mae sleidiau PwyntPwer ategol ar gael os yw'r rhain yn ddefnyddiol.

Pan fydd dysgwyr wedi gorffen, anogwch nhw i gerdded o gwmpas yr ystafell ddosbarth heb siarad i gymryd i mewn yr hyn y mae dysgwyr eraill wedi'i lunio/ei ysgrifennu. Gellir dilyn hyn gan drafodaeth mewn cylch, gan gynnwys cwestiynau megis:



1. **Beth sydd gan luniau / geiriau pobl yn gyffredin?**
2. **Beth sy'n gwneud lle arbennig yn heddychlon?**
3. **Sut deimlad yw bod yn heddychlon?**
4. **Beth sydd ei angen arnom er mwyn sicrhau heddwch?**
   (e.e. diogelwch, parch, cyfathrebu, gwrando, cefnogaeth...)

Dywedwch y byddant yn edrych ar stori cyn bo hir sy'n golygu meddwl am heddwch ar wahanol lefelau - yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

# Gweithgaredd 2
## Cadw heddwch, Creu heddwch, Adeiladu heddwch

Rhowch yr ymadroddion hyn i fyny i ddysgwyr eu gweld – a gofyn: beth ydych chi'n meddwl yw'r gwahaniaeth rhwng y tri? Meddwl – Siarad â phartner - Rhannu: gofynnwch i'r dysgwyr rannu syniadau. Mewn grwpiau bach, rhowch gyfres o ddelweddau i'r disgyblion sy'n dangos pobl yn ymgymryd â gwahanol rolau mewn cymdeithas. Gofynnwch iddyn nhw 'ddidoli' y delweddau yn ôl a yw'r bobl dan sylw yn cadw heddwch, yn creu heddwch neu yn adeiladu heddwch. (Efallai y bydd rhai o'r bobl yn y lluniau yn ffitio i fwy nag un categori!). Pa rinweddau maen nhw'n meddwl sydd eu hangen ar y bobl hyn i chwarae eu rôl yn effeithiol? Gofynnwch i'r dysgwyr rannu eu canfyddiadau. Rhai casgliadau posibl yw:


- **Y mae Cadw Heddwch** yn ymwneud â chadw trefn ac weithiau cadw pobl ar wahân er eu diogelwch neu eu lles eu hunain;
- **Mae Creu Heddwch** yn tueddu i gynnwys dod â phobl at ei gilydd i 'ddatrys pethau', ond yn aml mae'n cynnwys trydydd person (e.e. cyfryngwr);
- **Adeiladu Heddwch** – mae hyn yn ymwneud â rhoi'r sgiliau i bobl i ddatrys pethau drostynt eu hunain a chreu amodau lle gall pobl fod yn heddychlon (e.e. tegwch, diogelwch, mynediad at fwyd da a gofal iechyd...)

**Weithiau, gall yr un bobl ymgymryd â rolau gwahanol (e.e. rhieni, athrawon).**

**Rhai cwestiynau i'w trafod:**

1. **Pa un o'r rhain yw'r mwyaf cyffredin?**
2. **Pa un yw'r mwyaf effeithiol?**
3. **Os ydy pobl yn cwympo allan yn yr ysgol neu gartref, sut y delir â hyn fel arfer?**
4. **Beth yn eich barn chi fyddai'n ddefnyddiol fel bod gwrthdaro yn cael ei ddatrys mewn ffyrdd cadarnhaol?**
5. **Beth allwn ni i gyd ei wneud i sicrhau bod ein cartref/ ysgol/ cymuned yn fwy heddychlon?**

# Gweithgaredd 3
## Archwilio bywyd yn y 1920au yng Nghymru:



Mae dysgu am Ddeiseb Heddwch y Menywod yn gofyn i ddysgwyr deithio yn ôl yn eu dychymyg i gyfnod gwahanol iawn mewn hanes. Mae rhai gweithgareddau ar dudalen 12 y pecyn addysg sy'n galluogi disgyblion i wneud hyn, ond dyma rai syniadau pellach.

**A** **Defnyddiwch ffotos** o'r rhyngrwyd yn dangos sut olwg oedd ar drefi a phentrefi yn y 1920au. Beth mae'r lluniau yn ei ddangos? (Gallech ofyn i'r disgyblion edrych ar bethau fel siopau [dim archfarchnadoedd], dulliau o deithio, hysbysebion, ffasiynau....

**B** **Mynd ar daith ddychmygol:** Gofynnwch i'r disgyblion gau eu llygaid a dychmygu eu bod mewn peiriant amser sy'n mynd â nhw yn ôl i 1923. Gofynnwch iddyn nhw ddychmygu eu bod nhw'n gorwedd yn y gwely yn eu cartref. Pan fyddant yn agor eu llygaid ac edrych o gwmpas.

Beth maen nhw'n ei weld? (e.e. unrhyw duvet? Unrhyw wres canolog? Pa fath o oleuadau?)

Nawr ewch â nhw trwy ddiwrnod yn y 1920au: beth maen nhw'n ei gael i frecwast? Sut maen nhw'n cyrraedd yr ysgol a sut le yw'r ysgol? Lle mae eu rhieni yn gweithio - neu ydy eu mam yn aros gartref? Beth maen nhw'n ei wneud gyda'r nos / ar benwythnos? (e.e. gwrando ar y radio / chwarae tu allan / mynd i'r capel ....). Gofynnwch i grwpiau ddod at ei gilydd a myfyrio ar y pethau sy'n teimlo'n wahanol iawn i 100 mlynedd yn ôl.

**C** **Creu Llinell Amser:**
Gallai fod o help i'r disgyblion i roi'r cyfnod yn eu cyd-destun drwy edrych ar y llinellau amser sydd yn yr adnoddau. Gallent greu llinell amser weledol trwy fapio digwyddiadau a dyfeisiadau allweddol dros y degawdau rhwng 1918 a 1950. Gall hyn helpu i ddeall beth nad oedd gan bobl yn y 1920au yng Nghymru a beth oedd hynny'n ei olygu ar gyfer bywyd bob dydd.

Er enghraifft, os nad oedd gan lawer o gartrefi drydan, sut cafodd cartrefi eu goleuo? Heb deledu, sut roedd pobl yn difyrru eu hunain gyda'r nos neu ar benwythnos? A fyddai pobl yn eu tref / pentref wedi bod yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i waith mewn cymdeithas oedd eisoes wedi dirywio oherwydd y Rhyfel? Beth oedd ar feddyliau pobl ar y pryd?



# Gweithgaredd 4
## Ymatebion i Ryfel:

Teimlai'r menywod a ddatblygodd y Ddeiseb Heddwch yn angerddol ynglŷn ag atal rhyfel byd arall oherwydd iddynt weld drostynt eu hunain ganlyniadau dinistriol y Rhyfel Byd Cyntaf. Fodd bynnag, nid pawb oedd yn erbyn y Rhyfel Byd Cyntaf, ac efallai y bu ymatebion cymysg yn y gymdeithas wedyn.

Gofynnwch i'r disgyblion weithio mewn grwpiau bach, a dosbarthu set o'r cardiau isod i bob grŵp.

### Gofynnwch iddyn nhw ystyried:

1. **Pwy yw'r person hwn, yn eich barn chi?**
2. **Sut maen  nhw yn teimlo am y rhyfel a'r hyn a ddigwyddodd wedyn?**
3. **A fedrwch chi esbonio eu teimladau?**
4. **Pe byddech yn cael sgwrs gyda'r person hwn, beth fyddech chi yn ei ddweud?**

Gall disgyblion chwarae rôl un o'r cardiau a chynnal sgwrs â chymeriad arall.

Buoch yn gweithio yn y pyllau glo nes i'r Rhyfel ddechrau ym 1914. Bryd hynny, roeddech chi eisiau mynd i ymladd i ddangos i'ch teulu bod yn rhaid i chi ymladd dros yr hyn rydych chi'n credu ynddo. Rydych chi'n falch o'ch ymdrechion - a'ch teulu hefyd.

Rydych chi'n berchennog ar ffatri ffrwydron Pen-bre. Pan ddechreuodd y rhyfel, roedd yn rhaid i chi gynhyrchu mwy o arfau a daeth llawer o fenywod i weithio yn y ffatri oherwydd bod y dynion wedi mynd i'r Ffrynt. Nawr bod y rhyfel ar ben, dynion yw eich gweithlu eto. Sut ydych chi'n teimlo am hynny?

Chi oedd yn gyfrifol am goginio, glanhau a gofalu am y plant tan 1917. Pryd hynny, roedd yn rhaid i chi fynd i mewn i'r ffatri i helpu yn y ffatri arfau. Roeddech chi'n ei hoffi braidd oherwydd roeddech chi'n gallu ennill cyflog a bod yn fwy annibynnol. Nawr mae pethau yn ôl i 'normal'. Sut ydych chi yn teimlo?

Rydych chi'n athro ysgol yn Aberystwyth. Nid oedd disgwyl i chi fynd i ymladd yn y rhyfel oherwydd y gwaith pwysig yr oeddech chi'n ei wneud ond weithiau rydych chi'n teimlo y dylech chi fod wedi gallu ymuno. Ni ddychwelodd llawer o'ch ffrindiau.

Rydych chi wedi gweld effaith y rhyfel ar gymaint o bobl yn eich cymuned.

Mae cymaint o bobl yn y pentref wedi colli brodyr, tadau a meibion neu mae pobl wedi dod yn ôl yn anabl. Rydych chi am sicrhau nad yw hyn byth yn digwydd eto.

Yn y capel, rydych chi bob amser wedi dysgu ei fod yn anghywir i ladd ac rydych yn argyhoeddedig na fedrwch ladd person arall. Pan ddaeth yr alwad, gwrthodoch ymuno. Roedd yn rhaid i chi fynd o flaen tribiwnlys a threulio amser yn y carchar oherwydd eich credoau. Nawr mae'n anodd i chi gael swydd.

Cafodd Gwrthwynebwyr Cydwybodol (pobl a wrthwynebodd ryfel ar sail grefyddol, wleidyddol neu foesol) eu trin yn wael iawn yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Gallwch ddod o hyd i straeon am wrthwynebwyr cydwybodol yma (Cynradd) ac yma (Uwchradd) yn ogystal â chyfres o ffilmiau byr yma.

# Gweithgaredd 5
## Pwy oedd y Menywod?

Mae'r gweithgaredd hwn yn gofyn am fynediad i'r rhyngrwyd. Ewch i'r dudalen o'r enw "Ysbrydolwyd gan Annie": Hanes Apêl Merched dros Heddwch i America, 1924" ar wefan Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru. Mae mwy o wybodaeth am 3 o'r menywod o dan Adran 5.



**i** **Edrychwch ar y wybodaeth a roddwyd am Mrs Peter Hughes Griffiths, Mary Ellis ac Elined Prys a'u lluniau.**

**ii** **Trafodwch yn gyntaf mewn grwpiau bach yna fel dosbarth:**

- **A** **Beth sy'n eich taro chi am y menywod hyn?**
- **B** **Pa sgiliau a phrofiadau oedd ganddyn nhw?**
- **C** **Pa fanteision oedd ganddynt? Pa rwystrau oedd rhaid iddynt eu goresgyn, efallai?**

### Creu Portreadau o'r Menywod:

Gweithgaredd mwy creadigol fyddai gofyn i ddisgyblion wneud portreadau o'r prif 'gymeriadau' naill ai trwy arlunio, neu gyda thecstilau neu beintio.

Gofynnwch iddyn nhw ddefnyddio swigod lleferydd i'w rhoi eu hunain yn esgidiau'r menywod ac i gynrychioli'r hyn y gallai'r cymeriadau hyn fod wedi bod yn ei feddwl ar ddechrau ymgyrch deiseb heddwch y menywod. Pwy oedden nhw? Beth oedd eu cefndiroedd a'u llwyddiannau? Am beth roedden nhw'n poeni, ydych chi'n meddwl? Beth oedden nhw eisiau ei gyflawni ar gyfer y dyfodol? Rhoddir enghraifft isod:

**Mrs Peter Hughes Griffiths:**

Pwy ydw i:

Rwy yn dod o...

Yr hyn wnes i cyn 1923



Rwy yn poeni am...

Hoffwn sicrhau bod...

**Nawr gofynnwch i'r disgyblion wneud yr un peth ar gyfer Mary Ellis ac Elined Prys.**

Pe baent yn gallu gwneud gwahaniaeth, beth fydden nhw'n hoffi ei gyflawni?

Beth fydden nhw'n hoffi ei wneud ar gyfer y genhedlaeth nesaf?